Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (FFORDD OSGOI'R TRALLWNG, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2016

MAE GWEINIDOGION CYMRU wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483 yn y Trallwng, Powys, neu gerllaw iddi.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad yn weithredol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch), yn dod i rym ar 11 Ionawr 2016 ac yn parhau tan 18 Ionawr 2016 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd arwyddion yn cael eu harddangos i roi hysbysiad ymlaen llaw tua 2 wythnos cyn i'r gwaith ddechrau.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r A483 rhwng Cylchfan Sarn-y-bryn-caled a Chylchfan yr Orsaf, y Trallwng. Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd fydd ar hyd yr A458 hyd at The Cross a'r B4381 Ffordd Hafren tua'r dwyrain: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/ 2016).

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A483 TRUNK ROAD (WELSHPOOL BYPASS, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2016

THE WELSH MINISTERS have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is required to undertake works on or near the A483 trunk road at Welshpool, Powys.

It is expected that the prohibition will operate overnight (19:00 – 06:00 hours), come into force on 11 January 2016 and remain until 18 January 2016 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Advance notification signs will be displayed approximately 2 weeks before the start of works.

The effect of the proposed Order will be to prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding in the length of the A483 between Sarn-y-bryn-caled Roundabout and Station Roundabout, Welshpool. The alternative route for northbound vehicles will be via the A458 to The Cross and eastbound B4381 Severn Road: vice versa for southbound vehicles.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 6 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2016).

M D BURNELL
Transport, Welsh Government.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE